
Taflen ffeithiau i ymgeiswyr: Deunydd etholiadol ac argraffnodau – Prydain Fawr

O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ceir rheolau am roi argraffnodau ar ddeunyddiau etholiadol.

Deunydd etholiadol yw unrhyw ddeunydd y gellir ystyried yn rhesymol y bwriedir iddo hyrwyddo neu sicrhau ethol ymgeisydd mewn etholiad .

Pan gaiff deunydd etholiadol ei argraffu, rhaid iddo gynnwys rhai manylion penodol (y cyfeirir atynt fel 'argraffnodau') er mwyn dangos pwy sy'n gyfrifol am lunio'r deunydd. Mae hyn yn helpu i sicrhau tryloywder ynglŷn â phwy sy'n ymgyrchu.

Rydym yn cynnig cyngor a chanllawiau ar y rheolau hyn ond **nid** ydym yn

rheoleiddio cydymffurfiaeth â hwy. Mater i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron fydd penderfyniadau ar ymchwilio i droseddau argraffnodi a'u herlyn, a dylid cyfeirio unrhyw honiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth i'r heddlu.

Mae'r rheolau ar argraffnodau yn gymwys i bob ymgeisydd. Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'r rheolau y mae'n rhaid i chi eu dilyn.

Beth yw deunydd etholiadol?

Deunydd print sy'n cael ei gyhoeddi yw deunydd etholiadol, megis taflenni a hysbysebion a ddefnyddir i hyrwyddo neu sicrhau ethol ymgeisydd mewn etholiad.

Mae deunydd etholiadol hefyd yn cynnwys deunydd sy'n barnu ymgeiswyr eraill.

Beth yw argraffnod?

Ychwanegir argraffnod at ddeunydd etholiadol er mwyn dangos pwy sy'n gyfrifol am ei lunio. Mae'n helpu i sicrhau tryloywder o ran pwy sy'n ymgyrchu, ac felly dylai fod yn glir ac yn weladwy.

Beth dylech chi ei gynnwys?

Ar ddeunydd print megis taflenni a phosteri, mae'n rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad y canlynol:

- yr argraffydd,
- yr hyrwyddwr,
- unrhyw berson y cyhoeddir y deunydd ar ei ran (ond nid yr hyrwyddwr)

Yr hyrwyddwr yw'r sawl sy'n awdurdodi i'r deunydd gael ei gyhoeddi.

Gallwch ddefnyddio cyfeiriad eich cartref neu'ch swyddfa. Nid yw cyfeiriad e-bost yn dderbyniol fel cyfeiriad argraffnod.

Os byddwch yn rhoi hysbyseb mewn papur newydd, nid os angen i'r hysbyseb gynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd, ond mae'n rhaid i enw

a chyfeiriad argraffydd y papur newydd ymddangos ar dudalen gyntaf neu dudalen olaf y papur newydd.

Mae'n drosedd i argraffydd neu hyrwyddwr gyhoeddi deunydd etholiadol print heb argraffnod.

Enghreifftiau o argraffnod

Dylai argraffnod ar ddeunydd ymgyrch ymgeisydd edrych fel a ganlyn:

- Argraffwyd gan [enw a chyfeiriad yr argraffydd]
- Hyrwyddwyd gan [enw a chyfeiriad yr asiant], ar ran [enw a chyfeiriad yr ymgeisydd].

Er enghraifft:

Argraffwyd gan Armadillo Printing Ltd, 22 Thornfields Avenue, Glasgow.

Hyrwyddwyd gan John Smith, 110 High Street, Airdrie ar ran Jane Smith o 112 High Street Airdrie.

neu lle rydych yn defnyddio cyfeiriad swyddfa:

Argraffwyd gan Armadillo Printing Ltd, 22 Thornfields Avenue, Glasgow.

Hyrwyddwyd gan John Smith, ar ran Jane Smith o 112 High Street Airdrie.

Pan fo'r ymgeisydd hefyd yn hyrwyddwr ar gyfer y deunydd, nid oes angen rhan 'ar ran' yr argraffnod. Gall hyn ddigwydd pan fo'r

ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun.

Er enghraifft:

Os bydd yr ymgeisydd yn argraffu taflenni ar ei beiriant argraffu ei hun, dylai'r argraffnod ymddangos fel a ganlyn:

Argraffwyd a hyrwyddwyd
gan Jane Smith o 112
High Street Airdrie.

Lle y bydd ymgeisydd yn argraffu taflenni gan ddefnyddio cwmni argraffu, dylai'r argraffnod ymddangos fel a ganlyn:

- Argraffwyd gan [enw a chyfeiriad yr argraffydd].
- Hyrwyddwyd gan [enw a chyfeiriad yr ymgeisydd].

Argraffwyd gan Armadillo
Printing Ltd, 22
Thornfields Avenue,
Glasgow. Hyrwyddwyd
gan Jane Smith o 112
High Street Airdrie.

Ym mhob achos dylech wneud yn siwr bod yr argraffnod yn rhestru pob hyrwyddwr a sefydliad cysylltiedig.

Lle rydych yn gosod yr argraffnod?

Os yw'r deunydd yn ddogfen un ochr - megis poster ffenestr - neu lle mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar un ochr, mae'n rhaid i chi roi'r argraffnod ar wyneb y ddogfen.

Os yw'r ddogfen yn aml-ochrog, mae'n rhaid i chi ei roi ar y dudalen gyntaf neu'r dudalen olaf.

Gwefannau a deunydd electronig arall

Fel arfer da, rydym yn argymhell eich bod yn gosod argraffnod ar ddeunydd electronig, megis gwefannau a negeseuon e-bost. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr a'r sefydliad y cynhyrchwyd yr argraffnod ar eu rhan. Dylech gynnwys argraffnod oni bai bod maint neu fformat y deunydd etholiadol yn golygu nad yw'r argraffnod yn ddarllenadwy.

Lle y bo'n anymarferol cynnwys argraffnod llawn ar ddeunydd etholiadol dylech ystyried sut y gellid darparu ffordd amgen o gysylltu'r deunydd â chi.

Dylid cynnwys yr argraffnod llawn ar unrhyw bosteri sydd ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan.

Cyllido torfol

Os ydych yn defnyddio gwefan cyllido torfol, dylech sicrhau bod y wefan yn nodi'r glir i bwy y rhoddir yr arian. Rydym yn argymhell eich bod yn rhoi argraffnod ar y we-dudalen. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar ein [taflen ffeithiau cyllido torfol](#).

Trydar a rhoi negeseuon ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol

Dylech arddangos eich manylion argraffnod llawn yn amlwg ar eich proffil.

Gallwch gynnwys cyswllt byr i'ch argraffnod yn eich trydariad neu'ch neges.

Delweddau a chartwnau

Nid yw'n ymarferol rhoi argraffnod llawn ar ddelwedd, dylech gynnwys testun cyswllt, neu logo neu emblem

ar ffurf hyperddolen sy'n arwain at eich argraffnod llawn.

Fforymau trafod ar-lein

Fel arfer da, rydym yn awgrymu, os ydych yn defnyddio'r fforymau hyn, eich bod yn amlygu'r ffaith eich bod yn ymgeisydd lle y bo'n bosibl.

Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

Yn ogystal â'r reolau ar argraffnodau, ceir hefyd rheolau ar godi arian a gwariant y mae'n rhaid i ymgeiswyr eu dilyn yn y cyfnod cyn etholiadau. Rydym yn cyhoeddi cyfres o ganllawiau i ymgeiswyr sy'n esbonio'r rheolau hyn, y gallwch eu gweld [yma](#).

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cynghori, a gallwch gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod.

- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
infonorthenireland@electoralcommission.org.uk